



I ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Addysg, rydyn ni eisiau i CHI greu poster sy'n tynnu sylw at ymdrechion y rheilffyrdd i ddiogelu'r amgylchedd neu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel ar hyd y rheilffordd... neu'r ddau! Bydd y 3 sy'n dod i'r brig yn ennill bag o nwyddau a bydd eu posteri'n cael eu rhannu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol i helpu i addysgu pobl eraill. Os hoffech chi gymryd rhan, anfonwch eich poster drwy e-bost at rhysevan.jones@networkrail.co.uk erbyn 24 Ionawr.

POB LWC!

Mae ychydig o bwyntiau allweddol a lluniau y gallwch eu defnyddio yn eich poster i'w gweld isod!

PAM MAE'R RHEILFFORDD YN BWYSIG?

- Mae'r rheilffordd yn helpu dros 4.8 miliwn o bobl i deithio o gwmpas y DU bob dydd, yn ogystal â chludo nwyddau hanfodol o amgylch y DU.

SUT MAE'R RHEILFFORDD YN HELPU'R AMGYLCHEDD?

- Mae'r rheilffordd yn cynhyrchu 80% yn llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr na cheir.
- Yn Network Rail, rydyn ni'n dargyfeirio 94% o wastraff o safleoedd tirlenwi.
- Mae pob tunnell o nwyddau sy'n cael eu cludo ar reilffyrdd yn lleihau allyriadau carbon 76% o'i gymharu â chludo ar y ffyrdd.
- Cynhyrchodd y rheilffyrdd 2m tunnell o garbon yn 2018, o'i gymharu â'r 70m a gynhyrchwyd gan geir!
- Mae coed a natur ar hyd y rheilffordd sy'n gartref i nifer o rywogaethau prin a dan fygythiad.

BOD YN DDIOGEL O GWMPAS Y RHEILFFORDD

- Mae gennym ni un o'r rheilffyrdd mwyaf diogel yn Ewrop, ond mae'r peryglon yno o hyd.
- Oeddech chi'n gwybod?
- Gall trenau deithio ar gyflymder o hyd at 125mya.
- Mae trên cyffredin yn pwyso 400 tonnelli, sydd yr un fath ag 80 eliffant!!
- Mae'r trydan ar y rheilffordd ar waith BOB AMSER a gall trydan neidio hyd at 3 metr.
- Pan mae'r brecioau argyfwng yn cael eu defnyddio ar drên, gall gymryd hyd at 20 o gaeau pêl-droed i stopio.
- Does dim rhwystrau ar bob croesfan reilffordd. Rhaid i chi AROS, EDRYCH a GWRANDO bob amser cyn croesi.

